

Cystadleuaeth Sillafu Genedlaethol Cymru 2023/24 Llawlyfr Athrawon



Cynnwys

1. Nod:.....	3
2. Beth yw'r Gystadleuaeth Sillafu?.....	3
3. Dechrau Arni.....	4
4. Camau'r Gystadleuaeth.....	5
5. Rhaglen Gyfrifiadurol y Gystadleuaeth Sillafu - canllaw'r defnyddiwr.....	6
6. Camau'r Gystadleuaeth: eglurhad.....	8
7. Y Rheolau.....	10
7. Acenion / Terminoleg.....	13
8 Gwybodaeth Arall.....	14
9. Cysylltiadau.....	15

1. Nod: Nod Cystadleuaeth Sillafu y *Spelling Bee* yw galluogi dysgwyr i ymarfer a gwella eu geirfa, sillafu, gramadeg a sgiliau cyfieithu mewn iaith arall (Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg a Chymraeg Ail Iaith) a chodi lefelau hyder ar yr un pryd.

2. Beth yw'r Gystadleuaeth Sillafu?

Cynlluniwyd y digwyddiad blynyddol hwn ar gyfer disgyblion ym **mlwyddyn 7 neu 8** sy'n astudio Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Chymraeg Ail Iaith.

Amcan y gystadleuaeth yw bod dysgwyr yn cyfieithu a sillafu cynifer o eiriau â phosibl yn gywir mewn un funud (yn yr iaith darged). Y dysgwyr a fydd yn cyfieithu'r nifer mwyaf o eiriau yn unol â'r rheolau fydd yr enillwyr.

Yn wahanol i Gystadleuaeth Sillafu uniaith, gall dysgwyr yng Nghymru ddewis derbyn eu geiriau yn Gymraeg neu Saesneg.

Caniateir i ddysgwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog gystadlu yn y categori Cymraeg fel Ail Iaith.

Bydd y dysgwyr yn cystadlu mewn 4 rownd gyda'r nifer o eiriau'n cynyddu gyda phob rownd.

Eleni, bydd POB rownd o'r '*Spelling Bee*' yn cael ei gynnal mewn ysgolion ar draws Cymru. Gellir lawrlwytho'r holl dystysgrifau o'n gwefan: [Cystadleuaeth Sillafu \(spellingbeecymru.co.uk\)](http://spellingbeecymru.co.uk) o dan Becyn Athrawon a rhestrau eiriau.

3. Dechrau Arni

Dylai'r gystadleuaeth gael ei lansio yn eich ysgol yn nhyrnor yr hydref a gorffen yn nhyrnor yr haf.

Er mwyn derbyn gwobrau i'r enillwyr, gofynnwn yn garedig i chi gofrestru ar gyfer y '*Spelling Bee*' ar-lein trwy ein gwefan cyn diwedd tymor yr hydref: <https://routesintolanguagescymru.co.uk/cy/spelling-bee-2021-22-2/>

Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, bydd y wefan www.spellingbeecymru.co.uk yn eich arwain drwy'r gystadleuaeth ac yn cynnwys:

- Llawlyfr Athro
- Rhestrau geirfa ar gyfer pob rownd o'r gystadleuaeth
- Tystysgrifau ar gyfer pob rownd o'r gystadleuaeth gan gynnwys tystysgrifau'r enillydd.
- Rhaglen gyfrifiadur y gystadleuaeth a fyddwch yn ei ddefnyddio wrth gynnal pob rownd o'r gystadleuaeth.
- Gemau cyfrifiadurol y gall eich disgyblion eu defnyddio wrth ymarfer ar gyfer pob rownd.

4. Camau'r Gystadleuaeth

Bydd y dysgwyr yn cael 25 o eiriau i'w dysgu yng nghanm cyntaf y gystadleuaeth, ac fe ychwanegir 25 o eiriau ychwanegol ar bob cam dilynol.

Bydd nifer penodol o ddysgwyr yn symud ymlaen ar ddiwedd pob cam fel yr amlinellir yn y tabl isod.

	Tymor	Nifer o eiriau i'w dysgu	Nifer o fyfyrwyr sy'n mynd ymlaen (fesul iaith)
Cam 1 (Dosbarth)	Hydref	25 (Rhestr Geiriau 1)	15 (fesul dosbarth)
Cam 2 (Rownd go-gynderfynol Ysgol)	Gwanwyn	50 (Rhestr Geiriau 1 + 2)	10 (o'r ysgol)
Cam 3 (Rownd gyn-derfynol yr ysgol)	Gwanwyn	75 (Rhestr Geiriau 1 + 2 + 3)	5 (o'r ysgol)
Cam 4 (Rownd Derfynol yr ysgol)	Haf	100 (Rhestr Geiriau 1+2+3+4)	2 enillydd ar gyfer pob iaith yn cystadlu ar gyfer y bencampwriaeth. Gofynnwn i'r ysgol i roi gwybod enwau'r enillwyr ar gyfer pob iaith erbyn Dydd Gwener, 14eg o Fehefin 2024.
Gwobrwyon Ysgol	Gorffennaf 2024		Bydd pencampwyr y Gystadleuaeth Sillafu ar gyfer pob iaith eich ysgol yn cael eu longyfarch gan wobrwyr y ' <i>Spelling Bee</i> ' ac yn cael eu dathlu trwy dudalennau cyfryngau cymdeithasol Routes Cymru.

Dylai'r enwau enillwyr o bob categori iaith o'ch ysgol cael ei gyflwyno i info@routesintolanguagescymru.co.uk erbyn y dyddiad a nodir yn y tabl uchod.


5. Rhaglen Gyfrifiadurol y Gystadleuaeth Sillafu - canllaw'r defnyddiwr

Defnyddir Rhaglen Gyfrifiadurol y Gystadleuaeth Sillafu ar gyfer profi dysgwyr ar bob cam yn y gystadleuaeth. Dyma'r prif lwyfan a ddefnyddir, gan ddewis geiriau ar hap o fewn y cyfnod profi o funud.


I ddechrau'r prawf, dilynwch y camau isod:

Ewch i


<http://spellingbeecymru.co.uk>



Dewiswch faner yr Iaith Darged.




Dewiswch yr opsiwn '**Cystadleuaeth**' ac yna dewiswch '**Cystadleuaeth Sillafu**'



Dewiswch y cam perthnasol.

Spanish

Please select one of the language(s) below that you wish to study spanish in:



Change language Change game Change stage

© Cardiff University 2017

Astudio: Sbaeneg

Gweithio: Cymraeg All iaith

bienvenido

croeso



00:28 Nesaf

© Pibypop Cardiff 2017

Cliciwch faner Cymraeg neu Saesneg (fel iaith wreiddiol).

Cliciwch y botwm cychwyn i ddechrau.

6. Camau'r Gystadleuaeth: eglurhad

CAM 1: Rownd y Dosbarth:

Dylai athrawon wneud y canlynol:

- **Cyflwyno 25 gair yn y cam hwn** i'w myfyrwyr er mwyn iddynt allu dechrau eu dysgu ar y côf ac ymarfer.
- **Cynnal cystadleuaeth dosbarth** yn ôl yr amserlen a ddarperir.
 - Dylid penodi Cyflwynydd i weithredu rhaglen gyfrifiadurol y Gystadleuaeth Sillafu.
 - Mae dyfarnwr (a dilysydd) yn cadw'r sgôr, gan ddilyn y rheolau.
 - Dylid profi myfyrwyr yn unigol ac ni ddylid defnyddio unrhyw awgrymiadau i helpu.
 - Mae gan fyfyrwyr un funud i ddweud a sillafu cymaint o eiriau â phosibl yn gywir yn yr iaith darged. Gweler rheolau'r gystadleuaeth.
 - Bydd hyd at **15 myfyriwr o bob dosbarth iaith** yn mynd ymlaen i gam nesaf y gystadleuaeth.
 - Mae tystysgrifau enillwyr ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Gystadleuaeth Sillafu <https://spellingbeecymru.co.uk/>

CAM 2: Rownd go gyn-derfynol yr ysgol

- **Dylai athrawon gyflwyno 25 gair ychwanegol** i enillwyr cam 1 (cyfanswm o 50 gair).
- **Dylid cynnal rownd gyntaf yr ysgol** yn ôl yr amserlen. Mae'r un rheolau'n berthnasol.
- **Bydd 10 enillydd o bob iaith yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf.**
- Mae tystysgrifau enillwyr ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Gystadleuaeth Sillafu <https://spellingbeecymru.co.uk/>

CAM 3: Rownd cyn-derfynol yr ysgol

- **Dylai athrawon gyflwyno 25 gair ychwanegol** i enillwyr cam 2 yr ysgol (cyfanswm o 75 gair).
- **Dylid cynnal rownd cyn-derfynol yr ysgol** yn ôl yr amserlen.
- **Bydd 5 enillydd o bob iaith yn symud ymlaen i rownd derfynol yr ysgol.**
- Mae tystysgrifau enillwyr ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Gystadleuaeth Sillafu <https://spellingbeecymru.co.uk/>

CAM 4 Rownd Derfynol yr ysgol

- **Dylai athrawon gyflwyno 25 gair ychwanegol** i enillwyr cam 3 (cyfanswm o 100 gair).
- Bydd 2 enillydd o bob iaith o'r 3 rownd flaenorol yn ymryson ar gyfer y teitl Pencampwr y 'Spelling Bee' yn ystod tymor yr haf.
- **Athrawon i gyflwyno enw enillydd pob categori iaith i info@routesintolanguagescymru.co.uk erbyn Dydd Gwener, 14eg Mehefin 2024.**
- Tystysgrifau enillydd i'w lawrlwytho o'r wefan [Spelling Bee \(spellingbeecymru.co.uk\)](http://spellingbeecymru.co.uk)
- **Gwobrwyon i gael eu hanfon allan i'r ysgolion sydd wedi cofrestru gyda ni ar-lein.**

7. Y Rheolau

Y Gystadleuaeth

- Defnyddir rhaglen gyfrifiadurol y Gystadleuaeth Sillafu i hwyluso'r prawf <http://spellingbeecymru.co.uk/>
- Dewisir geiriau ar hap gan raglen gyfrifiadurol y Gystadleuaeth Sillafu.
- Mae'r cyflwynydd yn gofyn 'Ydych chi'n barod?' i bob cystadleuydd. Ar ôl i'r cystadleuydd gytuno ei fod yn barod i ddechrau, mae'r cloc yn dechrau.
- Mae gan gystadleuwyr UN FUNUD i sillafu cymaint o eiriau â phosibl yn yr iaith darged
- Mae dyfarnwr a'r gwiriwr yn gwranddo ar bob gair ac yn cadw sgôr yn ystod y slot amser un funud sydd gan bob cystadleuydd. Os yw'r ddau ohonynt yn cytuno bod y gair hwnnw wedi'i sillafu'n gywir, rhoddir un pwynt. Caiff cystadleuwyr eu profi'n unigol heb unrhyw awgrymiadau.
- Os oes angen penderfynu rhwng dau gystadleuydd cyfartal, bydd nifer y cwestiynau nad oedd y cystadleuydd am eu hateb yn cael eu cyfri. Bydd y cystadleuydd â'r nifer lleiaf yn ennill. Os yw'r sgôr a nifer y cwestiynau heb eu hateb yr un peth, bydd pob cystadleuydd yn cael munud arall i sillafu cymaint o eiriau â phosibl. Unwaith eto, bydd nifer y cwestiynau na chafodd eu hateb yn cael eu cyfri. Os yw'r cystadleuwyr yn cael yr un sgôr, caiff rownd penderfynu ei chwarae. Bydd cystadleuwyr yn sillafu gair yn eu tro, nes y bydd un ohonynt yn camsillafu gair. Bydd hyn yn parhau nes y bydd un ohonynt yn ennill (a'r llall yn dod yn ail). Bydd cystadleuwyr yn cael yr un nifer o eiriau i'w sillafu. Nid oes terfyn amser ar y rownd penderfynu.
- Caniateir i fyfyrwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog gystadlu yn y categori Cymraeg fel ail iaith.

Rheolau'r Cystadleuwyr

- Bydd cystadleuwyr yn wynebu'r dyfarnwr.
- Bydd cystadleuwyr yn clywed y gair, yn ei gyfieithu i'r iaith darged, ac yn ei sillafu gan ddefnyddio gwyddor yr iaith darged, gan ddefnyddio'r fformiwla DWEUD Y GAIR, SILLAFU'R GAIR.
- Rhaid i gystadleuwyr gyfieithu'r gair gan ddefnyddio'r fannod gywir, ond dim ond yr enw sy'n rhaid ei sillafu.
- Rhaid lleisio acenion ac atalnodi yn ystod y sillafu yn ôl y rheolau a nodir isod (gweler Acenion/Terminoleg).
- Gall cystadleuwyr ddewis peidio ag ateb cwestiwn, ond mae'n rhaid dweud 'Pasio' yn yr iaith darged. Ni fydd peidio ag ateb cwestiwn yn cael ei gosbi ar unwaith, ond bydd nifer y cwestiynau nad yw'r cystadleuydd yn eu hateb yn cael eu cyfri rhag ofn bod angen dewis rhwng dau gystadleuydd â sgôr gyfartal.
- Rhaid i gystadleuwyr siarad yn glir ac yn ddigon uchel. Os nad yw'r dyfarnwr yn gallu clywed y Cystadleuydd, bydd yn gofyn iddo sillafu'r gair eto. Ni fydd y cloc yn stopio wrth wneud hyn.
- Er mai cystadleuaeth i fesur cyflymder yw hon, **mae eglurder yn bwysig dros ben**. Os nad yw'r dyfarnwr yn gallu deall llythyren neu air, ni roddir pwynt ar gyfer y gair.
- **Y dyfarnwr fydd yn penderfynu a glywodd lythyren neu sillafiad.**
- Os nad yw'r cystadleuwyr yn siŵr a ydynt wedi clywed y gair yn iawn, mae cyfrifoldeb arnynt i ofyn am gael ailddweud y gair. Ni fydd y cloc yn stopio wrth wneud hyn.
- Ni all ymgeiswyr newid trefn y llythrennau ar ôl gorffen sillafu'r gair, ond gallant stopio yng nghanol y gair a dechrau eto o'r dechrau.
- Os yw'r amser yn dod i ben wrth i gystadleuydd sillafu gair, dylid gadael iddo orffen sillafu'r gair hwnnw.
- Os yw'r amser yn dod i ben cyn i gystadleuydd ddechrau sillafu gair, ni roddir pwynt.
- Os oes rhywbeth yn rhwystro cystadleuydd rhag sillafu gair ac mae'r amser yn dod i ben (er enghraifft, os yw cystadleuydd arall yn tarfu), gall y dyfarnwr benderfynu gadael iddo ail-sillafu'r gair.
- Ni chaiff cystadleuwyr ymgynghori ag eraill.
- Rhaid i gystadleuwyr aros yn dawel pan nad ydynt wrthi'n sillafu. Bydd ymgeiswyr sy'n tarfu yn cael rhybudd, ac os yw'r tarfu'n parhau mae'n bosibl y byddant yn cael eu gwahardd.

Y Dyfarnwr

- **Mae penderfyniad y dyfarnwr yn derfynol; ei awdurdod yw'r rhestr geiriau.**
- Er mai cystadleuaeth i fesur cyflymder yw hon, **mae eglurder yn bwysig dros ben.** Os nad yw'r dyfarnwr yn gallu deall llythyren neu air, ni roddir pwynt ar gyfer y gair.

Rheolau Anghymhwysu / Gwahardd

- Os bydd y dyfarnwr yn fodlon bod achos o dwyllo wedi digwydd, caiff y Cystadleuydd ei anghymhwysu.
- Bydd ffonau symudol sy'n parhau heb eu diffodd ar ôl derbyn rhybudd yn golygu y bydd y cystadleuydd yn cael ei anghymhwysu.
- Os nad yw gwesteion yn dawel yn ystod y gystadleuaeth ar ôl derbyn rhybudd, efallai y caiff eu cystadleuydd ei anghymhwysu.
- Os yw'r dyfarnwr yn amau bod aelodau o'r gynulleidfa'n dylanwadu ar gywirdeb y sillafu drwy ba bynnag ffyrdd, bydd y dyfarnwr yn rhoi rhybudd, ac os yw'r digwyddiad yn parhau, gall y dyfarnwr anghymhwysu cystadleuydd neu gystadleuwyr.

7. Acenion / Terminoleg

Rhaid i'r holl acenion a therminoleg gael eu dweud fel y nodir isod; neu ni chaiff pwynt ei ddyfarnu.

FFRANGEG	
â ê î ô û	accent circonflexe
ç	cédille
é	accent aigu
è	accent grave
ë ï ö ü	tréma
Bwlch	blanc
Pasio	je passe
Collnod	apostrophe
Cysylltnod	trait d'union / turet

SBAENEG	
á é í ó ú	tilde
ü	diéresis
ñ	eñe
Bwlch	espacio
Pasio	paso
Hyphen	guion

ALMAENEG	
ä ö ü	Umlaut
ß	S-Zett / scharfes S
Bwlch	Leerzeichen / Abstand
Pasio	ich passe
Collnod	Apostroph
Hyphen	Bindestrich

CYMRAEG	
â ê î ô û ŷ	acen grom (anffurfiol: to bach)
á	acen
Bwlch	bwlch
Pasio	nesaf
Collnod	collnod
Cysylltnod	cysylltnod

8 Gwybodaeth Arall

Rhaid i gystadleuwyr gyfieithu'r gair gan ddefnyddio'r fannod gywir, ond dim ond yr enw sy'n rhaid ei sillafu.

<input checked="" type="checkbox"/>	ysgrifbin	un stylo	s t y l o
<input checked="" type="checkbox"/>	y nos la nuit	n u i t	
<input checked="" type="checkbox"/>	diwrnod	ein Tag	t a g

Rhaid i'r fannod gyd-fynd â'r fannod yn y rhestr geiriau.

<input checked="" type="checkbox"/>	ysgrifbin	un stylo	s t y l o
<input checked="" type="checkbox"/>	ysgrifbin	le stylo	s t y l o

Mae angen i'r genedl fod yn gywir. Hyd yn oed os yw'r gair wedi'i sillafu'n gywir, ni chaiff marc ei ddyfarnu os yw cenedl yr enw yn anghywir.

<input checked="" type="checkbox"/>	ysgrifbin	un stylo	s t y l o
<input checked="" type="checkbox"/>	ysgrifbin	une stylo	s t y l o

Nid oes angen lleisio marciau cwestiwn yn ystod y sillafu.

9. Gwybodaeth ddefnyddiol

Er mwyn gweld sut mae'r gystadleuaeth yn gweithio, beth am wyllo'r enghreifftiau yma?



Spelling Bee – Ffrangeg: www.youtube.com/watch?v=tPfm5pWEzK0

Spelling Bee – Sbaeneg: www.youtube.com/watch?v=q6QOZk5jhQc

Spelling Bee – Cymraeg Ail Iaith: www.youtube.com/watch?v=CJsMOaN_tpw

Spelling Bee – Almaeneg: www.youtube.com/watch?v=LjaUXOFXwes

10. Cysylltu â ni

	<p>Ruben Chapela</p> <p>Cydlynnydd y Prosiect - Gogledd Cymru</p> <p>info@routesintolanguagescymru.co.uk</p> <p>01248 382099</p>	<p>AAI: Ynys Môn; Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Powys, Wrecsam</p>
	<p>Megan Harries</p> <p>Project Coordinator (maternity cover) - South Wales</p> <p>info@routesintolanguagescymru.co.uk</p> <p>02922 514740</p>	<p>AAI: Blaenau Gwent; Pen-y- bont; Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Sir Forgannwg, Merthyr Tudful, Sir Fynwy; Castell-nedd Port Talbot; Casnewydd, Sir Benfro; Rhondda Cynon Taf; Abertawe, Torfaen</p>



[https:// routesintolanguagescymru.co.uk](https://routesintolanguagescymru.co.uk)



<https://www.facebook.com/routescymru>



<https://twitter.com/routescymru>



<https://www.instagram.com/routescymru/?next=%2F>